



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

10:00 yb 4 Medi 2020

Cyfarfod rhithiol

Presennol:

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Kenneth P Hughes
Cyng. Richard Owain Jones
Cyng. Bryan Owen
Cyng. Richard Owain Jones

Cyngor Gwynedd

Cyng. Anne Lloyd Jones
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. Gareth Griffith
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Owain Williams
Cyng. John Pughe Roberts

Swyddogion:

Gareth Jones	Pennaeth Adran Cynorthwyol - Amgylchedd (CG)
Dewi Francis Jones	Prif Swyddog Cynllunio
Rhun ap Gareth	Uwch Gyfreithiwr (CG)
Rebeca Jones	Rheolwr Polisi Cynllunio (GPCC)
Heledd Jones	Arweinydd Tîm – (GPCC)
Ffion Madog Evans	Uwch Rheolwr Cyllid (CG)

Ymddiheuriadau:

Cyng. Gareth A Roberts (CG)
Cyng. Robin Williams (YM)

1. YMDDIHEURIADAU

Ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL - CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

- Cyng. Anne Lloyd Jones - Personol ac yn rhagfarnu - Y drafodaeth yn ymwneud a'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwrastiaid. Unigolyn hefo diddordeb personol yn y maes hwn.

- Cyng Richard Dew - Personol ac yn rhagfarnu - Y drafodaeth yn ymwneud a'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid. Unigolyn hefo diddordeb personol yn y maes hyn.
- Cyng. Owain Williams - Personol ac yn rhagfarnu - Y drafodaeth yn ymwneud a'r Canllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid. Unigolyn hefo diddordeb personol yn y maes hwn.

3. **MATERION BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

4. **COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Medi 2019 fel rhai cywir.

5. **CYFRIFON TERFYNOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

ATODIAD A: CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2019/20

ATODIAD B: FFURFLEN SWYDDOGOL FLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad gan Ffion Madog Evans (Uwch Rheolwr Cyllid) a oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

Eglurwyd bod y Ffurflen Flynyddol Swyddogol ar gyfer 2019/2020 wedi'i chwblhau a'i hardystio'n briodol gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Yn dilyn ardystiad roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gymeradwyo a chyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol erbyn 15 Mehefin 2020. Er iddo gael ei gyhoeddi ar gwefan Cyngor Gwynedd oherwydd argyfwng Covid-19, nid oedd yn bosibl i'r corff gymeradwyo'r ffurflen flynyddol cyn 15 Mehefin 2020.

Eglurwyd bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi bod yn destun archwiliad gan Deloitte ac ni chododd unrhyw faterion fel rhan o'r Archwiliad.

Esboniwyd, oherwydd y sefyllfa bresennol gyda'r pandemig, y byddai'n angenrheidiol i'r Cadeirydd lofnodi'r Cyfrifon gan ddefnyddio llofnod electronig.

Materion a godwyd:

- Cwestiynwyd beth oedd y Costau Staffio Eraill yn atodiad A.

Ymateb:

- Eglurwyd mai costau yn ymwneud ac aelod o staff sydd bellach wedi gadael y gwasanaeth ydi'r costau staffio eraill ac mai costau ar gyfer 19/20 yn unig ydi'r rhain.

Penderfyniad

Derbyniwyd a chymeradwywyd y 'Cyfrif Incwm a Gwariant refeniw 2018/2019' ynghyd a'r 'Ffurflen Flynyddol' ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Cytunwyd y Cadeirydd i lofnodi'r cyfrifon yn electronig, gan gadarnhau ei bod wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd.

6. **CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) (FERSIWN DRAFFT YMGYNGHORI): CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRESTIAID**

Penderfynwyd newid drefn yr agenda a thrafod eitem 7 o flaen eitem 6.

Cafwyd cyflwyniad byr gan Heledd Jones yn esbonio taith y CCA hyd yma. Esboniwyd y rhesymau dros y newidiadau i'r CCA a'r man ddiwygiadau a chynigir i'r CCA. Esboniwyd fod y newidiadau yn ymwneud a diffinio'r hyn a ystyrir gan ormodedd o lety gwyliau'r rhesymeg dros y newidiadau hynny. Amlygwyd mai'r newidiadau sydd wedi ei dangos mewn ysgrifen fras ac wedi ei danlinellu yn rhan 4.6 a phara 6.2.1 fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Materion a godwyd:

- Gofynnwyd a fydd unrhyw ddatblygiad newydd (lle yn briodol) yn cael ei chlymu i Rif y Daliad
- Angen edrych ar geiriad para 4.6.2 yn y fersiwn Saesneg y gair 'idle' ddim yn addas yn y cyd-destun yma
- Gofynnwyd am esboniad o beth mae 'cyfiawnhad cadarn' ym mharagraff 3.1.3 yn ei olygu
- Gofynnwyd am esboniad beth mae 'adeiladau diogelwch' yn ei olygu ym mharagraff 4.4.1

Ymateb:

- Eglurwyd bod y CCA yn rhoi arweiniad ar hyn yn para 4.6.6, mae unrhyw ddatblygiad newydd yn cael ei rheoli gan amod lle yn briodol.
- Cytunwyd nag oedd y gair yma yn addas a chytunwyd y bydd yn cael ei newid ag i brawf ddarllen y diwygiadau cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus
- Esboniwyd fod y paragraff yma ddim yn destun yr ymgynghoriad cyhoeddus
- Esboniwyd fod yr eirfa yma yn dod o Bolisi Cynllunio Cymru.

Penderfyniad

Cymeradwywyd y diwygiadau oedd yn cael ei gynnig i ran 4.6 a pharagraff 6.2.1 o'r Canllaw a phenderfynwyd cymeradwyo rhyddhau'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus sydd yn benodol berthnasol i'r rhannau hynny.

7. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL (CCA) (FERSIWN DRAFFT YMGYNGHORI): NEWID DEFNYDD CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU CYMUNEDOL, SAFLEOEDD CYFLOGAETH AC UNEDAU MANWERTHU

Cafwyd cyflwyniad gan Heledd Jones yn rhoi cyd-destun y CCA a gosod allan y camau nesaf. Esboniwyd y broses o baratoi'r CCA, a bod diwygiadau wedi ei wneud yn dilyn cyflwyno'r fersiwn drafft cychwynnol o'r Canllaw i'r Panel. Amlygwyd bod y newidiadau yma wedi ei wneud yn dilyn trafodaethau mewnol. Gosodwyd allan y diwygiadau fel isod.

- Diwygio rhannau sydd yn cyfeirio at y polisiâu perthnasol a gynhwysir o fewn y CDLI ar y Cyd er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb rhwng y Canllaw a'r Polisiâu;
- Ychwanegu eglurder o ran colli defnydd cyfleuster cymunedol sydd ddim yn ddefnydd masnachol a'r wybodaeth a ddisgwyllir ei gyflwyno;
- Ychwanegu eglurder o ran y wybodaeth a ddisgwyllir ei gyflwyno wrth ystyried addasrwydd ceisiadau ar gyfer defnyddiau ategol ar safleoedd cyflogaeth.

Materion a godwyd:

- Holwyd pam fod para 4.5 (Canol Trefi) yn gofyn fod yr eiddo wedi bod ar y farchnad am bris gwerthu neu bris rhent rhesymol am gyfnod o chwe mis ond yn para 4.6 (mewn pentrefi) bod y gofyn yn deuddeg mis.

Ymateb:

- Esboniwyd fod y gofyn yma yn deillio o'r polisiau yn y CDLI a bod o ddim yn bosib newid hynny trwy'r CCA.

Penderfyniad –

Cymeradwywyd rhyddhau'r Canllaw Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

Diwedd